


Synwryddion Teleofal

Enghreifftiau o synwryddion ar gael yn dilyn asesiad

Tachwedd 219



Synwryddion Teleofal - wedi'u cysylltu i'r ganolfan fonitro

Uned larwm

Mae'r uned yn plygio mewn i soced pŵer a'r soced ffôn ac mae'n ffonio'r ganolfan fonitro pan fydd yn synhwyro bod un o'r dyfeisiau Teleofal wedi cael ei 'ysgogi'.

Synwrydd Cwmpo

Gall y synwrydd cwmpo hysbysu gofalwr neu'r ganolfan fonitro ar unwaith pan fydd rhywun wedi cwmpo, gan gynyddu eu siawns o ddychwelyd i fywyd annibynnol. Mae angen asesiad gofalus cyn gosod synwryddion cwmpo i sicrhau bod y ddyfais gywir yn cael ei gosod. Fel rheol dim ond pan fydd rhywun sydd mewn perygl o ddisgyn a llewygu neu'n debygol o anghofio gwasgu eu cadwyn larwm y caiff y rhain eu gosod.

Synwrydd Symud PIR; Monitor Diffyg Symud

Gall y PIR fonitro symudiad ar adegau penodol yn ystod y dydd, megis bob pedair awr. Os nad ydi'r unigolyn wedi symud yn ystod y cyfnod yma, oherwydd cwmp neu deimlo'n sâl er enghraifft, fe fydd yr uned larwm yn anfon rhybudd at y gofalwr neu'r ganolfan fonitro.

Synwrydd Gwely

Fe fydd y synwrydd gwely yn synhwyro pan fydd unigolyn wedi gadael y gwely a heb ddychwelyd o fewn cyfnod penodol. Mae amseredd yn sicrhau y bydd y synwrydd yn gweithio yn ystod oriau'r nos.

Synwrydd crwydro

Gall synwrydd cyswllt drws ar ddrysau mewnol ac allanol synhwyro bod rhywun yn crwydro. Pan gaiff y drws ei agor, fe anfonir larwm at ofalwr neu'r ganolfan fonitro i'w rhybuddio o'r perygl posibl. Mae gweithrediad wedi'i raglennu yn galluogi'r system i weithredu o fewn oriau penodol, hy, yn ystod y nos. Gall synwryddion cyswllt ar ddrysau fonitro diffyg symudiad hefyd.

Synwrydd llifogydd

Fe fydd larwm yn cael ei anfon os bydd dŵr yn cael ei synhwyro ar y llawr.

Synwrydd tymheredd isel

Bydd larwm yn cael ei anfon os bydd y tymheredd yn disgyn i lefel annerbyniol a allai arwain at hypothermia.

Falf Synhwyro a Diffodd Nwy

(ddim yn cael ei gyflenwi, ond rhoddir cyngor os oes angen).

Mae'r ddyfais yn synhwyro carbon monocsid a nwy naturiol. Os bydd

offer nwy ymlaen ond ddim wedi cael ei gynnau, bydd larwm yn cael ei anfon. Unwaith y bydd y synhwyrdd nwy wedi anfon larwm, gall y darn dewisol yma o offer ddiffodd y cyflenwad i'r eiddo, gan sicrhau bod y defnyddiwr yn ddiogel nes bod cymorth yn cyrraedd. Mae'n rhaid i'r falf yma gael ei osod gan beiriannydd sydd wedi cofrestru â Gas Safe.

Synhwyrdd Mwg

Caiff larwm ei anfon i'r ganolfan fonitro pan gaiff mwg ei synhwyro.

Cadwyn larwm

Gellir gwisgo'r gadwyn o amgylch yr arddwrn neu'r gwddf ac wrth wasgu'r botwm bydd yn anfon rhybudd.

Rhybudd Enwresis

Mae'n rhoi rhybudd buan i unigolion sydd yn gwlychu ac yn baeddu'r gwely wrth iddynt gysgu. Caiff pad synhwyro ei osod rhwng y dillad gwely a'r fatres er mwyn synhwyro llawer o ddŵr. Os bydd hyn yn digwydd, bydd larwm yn seinio a bydd galwad larwm argyfwng yn cael ei anfon.

Technoleg GPS i Gerdded yn Ddiogel

Mae'r dechnoleg yma'n cynorthwyo trawstoriad eang o bobl gyda gofynion gwahanol. Mae'n darparu mynediad at gefnogaeth bob dydd o'r flwyddyn drwy bwysu'r botwm ynghyd â'r gallu i synhwyro cwmpadau a'r dewis i siarad gyda'r ganolfan fonitro. Mae'r rhain yn helpu pobl sydd mewn perygl o fynd ar goll neu o ddrysu, gan eu galluogi i fyw bywydau annibynnol. Mae nodweddion eraill yn cynnwys y gallu i leoli rhywun gan ddefnyddio technoleg berchenogol GPS gyda chyflymder a chywirdeb heb ei ail gyda'r gallu i greu ardaloedd diogel a rhybuddion personol i ofalwyr.

Cymhorthion i'r Cof ar y We

Mae '*My Home Helper*' yn un enghraifft o gymhorthydd digidol i'r cof ar-lein, a dyfais gyfathrebu i bobl sy'n byw gyda namau gwybyddol megis dementia ac anafiadau i'w hymennydd, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.



Mae '*My Home Helper*' wedi cael ei ddylunio'n benodol fel nad oes angen unrhyw ryngweithio gyda'r defnyddiwr. Gallwch ei reoli o ble bynnag ydych chi ar wefan *My Home Helper*. Gallwch hyd yn oed anfon neges destun ato os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwyd.

Manteision '*My Home Helper*'

I'r Defnyddiwr:

- Yn cynyddu annibyniaeth
- Yn lleihau pryder ac iselder
- Yn lleihau unigedd
- Yn darparu anogaeth i'r cof ac atgofion
- Yn cynyddu ymgysylltu sydd yn galluogi hunanofal

I'r Gofalwr:



- Yn cyd-fynd â'r gofal rydych chi eisoes yn ei ddarparu
- Yn lleihau “baich y gofalwr”
- Yn rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl
- Yn eich helpu i gael eich bywyd yn ôl
- Yn cynyddu'r opsiynau cyfathrebu

Mae 'My Home Helper' yn cynorthwyo â gweithgareddau dyddiol i gynnal annibyniaeth a normalrwydd gyda'r fantais ychwanegol o liniaru unigedd, diflastod, blinder, pryder ac iselder.

Caiff *My Home Helper* ei gyflenwi ar ddyfais llechen sydd wedi'i gael ei gyflunio i redeg y system i'r eithaf o'r foment y byddwch chi'n ei droi ymlaen. Gall aelodau'r teulu a gofalwyr ddefnyddio system hawdd i addasu'r system i weddu anghenion unigol trwy wefan *My Home Helper*. Gallwch wneud hyn o unrhyw le sydd â chysylltiad i'r we – boed hynny gartref, yn y gwaith neu hyd yn oed ar wyliau. Mae wedi cael ei ddylunio i fod ymlaen o hyd, ac unwaith y bydd wedi'i droi ymlaen, dim ond pan fydd angen ychwanegu gweithgareddau newydd, apwyntiadau neu luniau ac ati y bydd angen gwaith cynnal a chadw. Mae angen cysylltiad i'r rhyngwyd er mwyn i *My Home Helper* weithio.

Costau Teleofal

Mae'r offer Teleofal ar gael i unrhyw un sy'n byw yn Sir y Fflint ac sy'n teimlo y gallai wneud gwahaniaeth i'w bywydau yn dilyn asesiad o anghenion.

Gofynnir am un taliad o £25 a TAW am osod yr offer. Codir tâl monitro hefyd sydd yn £2.20 a TAW yr wythnos.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Ffôn: 03000 858 858

Un Pwynt Mynediad

Preswylfa, Ffordd Hendy,

Yr Wyddgrug, CH7 1PZ.

E-bost: spoa@flintshire.gov.uk

Gwefan: www.siryfflint.gov.uk/teleofal

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: T1